HTRW936

PUBLIC PATH DIVERSION ORDER

HIGHWAYS ACT 1980

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

PUBLIC FOOTPATHS 3/14 (PART) AND 3/16 (PART), GWERN Y FELIN, HOPKINSTOWN
PUBLIC PATH DIVERSION ORDER 2026

THIS ORDER is made by Carmarthenshire County Council ('the Authority') under Section 119 of the Highways Act 1980 ('the 1980 Act') because it appears to the Authority that in the interests of the public crossed by the footpaths described in Paragraph 1 of this Order, it is expedient that the lines of the footpaths should be diverted.

Mr Edgar Thomas of Gwern Y Felin, Wernoleu Road, Ammanford, SA18 2JR has agreed to defray any compensation which becomes payable in consequence of the coming into force of this Order, and any expenses which are incurred in bringing the new site of the paths into a fit condition for use by the public.

Betws Community Council and Ammanford Town Council have been consulted on the making of the Order, as required by Section 120(2) of the 1980 Act.

BY THIS ORDER:

1. The public rights of way over the land situated at Gwern Y Felin, Wernoleu Road, Ammanford, SA18 2JR and shown by a bold continuous line on the map contained in this Order and described in Part 1 of the Schedule to this Order shall be stopped up after 14 days from the date of confirmation of this Order.

2. Notwithstanding this Order any statutory undertaker having apparatus affected by this Order shall have the following rights over the land referred to in Paragraph 1 namely access at all reasonable times to maintain or repair statutory apparatus.

3. There shall, at the end of 14 days from the date of confirmation of this Order, be a public footpath over the land situate at Gwern Y Felin, Wernoleu Road, Ammanford, SA18 2JR described in Part 2 of the Schedule and shown by a bold broken line on the map attached to this Order.

4. The rights conferred on the public under this Order shall be subject to the limitations and conditions set out in Part 3 of the Schedule.

SCHEDULE

PART 1

DESCRIPTION OF SITE OF EXISTING PATH OR WAY

Footpath 3/14 (part)
The section of footpath to be diverted commences from a point behind an outbuilding of Gwern Y Felin, at Ordnance Survey Grid reference (OSGR) SN64601224 (being Point 'A' on the Order Map), travelling in a north easterly direction through a field, passing an agricultural shed, before crossing the river (unbridged) and continuing to a point in a field approximately 20 metres northeast of the river at OSGR SN64661230 (being Point 'B' on the Order Map)

Length: 84m metres
Width: Undefined

Footpath 3/16 (part)
The section of footpath to be diverted commences from a point behind an outbuilding of Gwern Y Felin, at Ordnance Survey Grid reference (OSGR) SN64601224 (being Point 'A' on the Order Map), travelling in a south easterly direction along the field edge towards the river (Point 'C'), before continuing to the field boundary at SN64691216 (being Point 'F' on the Order Map).

Part of this route has been lost to river erosion (Point 'D' on the Order Map)

Length: 130 metres
Width: Undefined

PART 2

DESCRIPTION OF SITE OF NEW PATH OR WAY

Footpath 3/14 (part)
The footpath shall commence from a point in a field approximately 20 metres northeast of the river at OSGR SN64661230 (being Point 'B' on the Order Map), travelling south across a field alongside the river to the sleeper bridge at SN64671226 (being Point 'E' on the Order Map)

Length: 39 metres
Width: 2 metres

Footpath 3/16 (part)

The footpath shall commence from the sleeper bridge at SN64671226 (being Point 'E' on the Order Map), crossing the bridge then continuing south easterly alongside the river (2 metres from the river's edge) to a kissing gate in the corner of the field, continuing to the field boundary and re-joining the original route via a kissing gate at a point southeast of Gwern Y Felin at SN64691216 (being Point 'F' on the Order Map).

Length: 111 metres
Width: 2 metres

PART 3

LIMITATIONS AND CONDITIONS

Position on Paths to which limitations or Conditions Apply		Limitation/Condition
Point on order map	OS Grid Ref	
C	SN64681219	Structure compliant with BS5709:2018, initially a kissing gate
F	SN64691216	Structure compliant with BS5709:2018, initially a kissing gate

Dated this 20th day of May 2026

THE COMMON SEAL OF CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL
was hereunto affixed in the presence of:

Steven P Murphy

Steven P Murphy

Head of Law, Governance and Civil Services

19991

CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL (PUBLIC FOOTPATHS 3/14 [PART] AND 3/16 [PART]) PUBLIC PATH DIVERSION ORDER 2026	New Footpath Existing Footpath Footpath Unchanged	Town/Community: Betws OS Grid Reference: SN646122 OS Map Sheet: SN61SW Scale 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023377 © Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023377

H7RW936

GORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS

DEDDF PRIFFYRDD 1980

GORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
LLWYBRAU TROED CYHOEDDUS 3/14 (YN RHANNOL) A 3/16 (YN RHANNOL), GWERN Y FELIN, TREHOPCYN 2026

MAE'R GORCHYMYN HWN yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Caerfyrddin ('yr Awdurdod') o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ('Deddf 1980') oherwydd ymddengys i'r awdurdod, er budd y cyhoedd a groesir gan y llwybrau troed a ddisgrifir ym Mharagraff 1 o'r gorchymyn hwn, ei bod yn briodol dargyfeirio'r llinellau y llwybrau troed.

Mae Mr Edgar Thomas o Gwern y Felin, Ffordd Wernoleu, Rhydaman, SA18 2JR wedi cytuno i dalu unrhyw iawndal sy'n daladwy o ganlyniad i'r gorchymyn hwn yn dod i rym, ac unrhyw dreuliau sydd ynghlwm wrth sicrhau bod safle newydd y llwybrau mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

Ymgynghorwyd â Chyngor Cymuned y Betws a Chyngor Tref Rhydaman ynghylch gwneud y gorchymyn, yn unol â gofynion Adran 120(2) o Ddeddf 1980.

DRWY'R GORCHYMYN HWN:

1. Bydd yr hawl tramwy cyhoeddus dros y tir a leolir yn Gwern y Felin, Ffordd Wernoleu, Rhydaman, SA18 2JR a ddangosir gan llinellau drom barhaus ar y map a geir yn y gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r gorchymyn hwn yn cael ei chau ar ôl 14 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r gorchymyn hwn.

2. Er gwaethaf y gorchymyn hwn, bydd gan unrhyw ymgymerwr statudol sydd â chyfarpar yr effeithir arno gan y gorchymyn hwn yr hawliau canlynol dros y tir y cyfeirir ato ym mharagraff 1 sef mynediad ar bob adeg resymol i gynnal a chadw neu i atgyweirio cyfarpar statudol.

3. Ar ddiwedd 14 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r gorchymyn hwn, bydd llwybr troed cyhoeddus ar dir Gwern y Felin, Ffordd Wernoleu, Rhydaman, SA18 2JR, a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac a ddangosir gan linell drom doredig ar y map sydd ynghlwm wrth y gorchymyn hwn.

4. Bydd yr hawliau a roddir i'r cyhoedd o dan y gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen.

YR ATODLEN

RHAN 1

DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R FFORDD BRESENNOL

Llwybr troed 3/14 (yn rhannol)
Mae'r rhan o'r llwybr troed sydd i'w dargyfeirio yn dechrau o fan y tu ôl i un o dai allan Gwern y Felin, yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN64601224 (Pwynt 'A' ar Fap y Gorchymyn), gan fynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain trwy gae a mynd heibio i sied amaethyddol, cyn croesi'r afon (heb bont) a pharhau i fan mewn cae tua 20 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r afon yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN64661230 (Pwynt 'B' ar Fap y Gorchymyn)

Hyd: 84 metr
Lled: Heb ei ddiffinio

Llwybr troed 3/16 (yn rhannol)
Mae'r rhan o'r llwybr troed sydd i'w dargyfeirio yn dechrau o fan y tu ôl i un o dai allan Gwern y Felin, yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN64601224 (Pwynt 'A' ar Fap y Gorchymyn), gan fynd i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd ymyl y cae tuag at yr afon (Pwynt 'C'), cyn parhau i ffin y cae yr Arolwg Ordnans SN64691216 (Pwynt 'F' ar Fap y Gorchymyn).

Mae rhan o'r llwybr hwn wedi'i cholli oherwydd ei bod wedi'i herydu gan yr afon (Pwynt 'D' ar Fap y Gorchymyn)

Hyd: 130 metr
Lled: Heb ei ddiffinio

RHAN 2

DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R FFORDD NEWYDD

Llwybr troed 3/14 (yn rhannol)
Bydd y llwybr troed yn dechrau o fan mewn cae tua 20 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r afon yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN64661230 (Pwynt 'B' ar Fap y Gorchymyn), gan fynd i'r de ar draws cae wrth ochr yr afon i'r bont drawstiau yn SN64671226 (Pwynt 'E' ar Fap y Gorchymyn)

Hyd: 39 metr
Lled: 2 fetr

Llwybr troed 3/16 (yn rhannol)
Bydd y llwybr troed yn dechrau o'r bont drawstiau yn SN64671226 (Pwynt 'E' ar Fap y Gorchymyn), gan groesi'r bont ac yna parhau tua'r de-ddwyrain wrth ochr yr afon (2 fetr o ymyl yr afon) hyd at gât mochyn yng nghornel y cae, cyn parhau i ffin y cae ac ailymuno â'r llwybr gwreiddiol drwy gât mochyn i'r de-ddwyrain o Gwern y Felin yn SN64691216 (Pwynt 'F' ar Fap y Gorchymyn).

Hyd: 111 metr
Lled: 2 fetr

RHAN 3

CYFYNGIADAU AC AMODAU

Safle ar Lwybrau y mae'r cyfyngiadau neu'r amodau'n berthnasol iddynt		Cyfyngiadau/Amodau
Pwynt ar fap y gorchymyn	**Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans**	
C	SN64681219	Strwythur sy'n cydymffurfio â BS5709:2018, gât mochyn i gychwyn
F	SN64691216	Strwythur sy'n cydymffurfio â BS5709:2018, gât mochyn i gychwyn

Dyddiedig yr 20fed o Fai 2026

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR CAERFYRDDIN ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb:

Steven P Murphy

Steven P Murphy

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

19991

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN (LLWYBRAU TROED 3/14 [YN RHANNOL] A 3/16 [YN RHANNOL) GORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR TROED CYHOEDDUS 2026	Llwybr troed newydd Llwbr troed bresennol Llwybr troed heb newid	Tref/Cymuned: Betws Cyfeirnod Grid AO: SN646122 OS Taflen Map: SN61SW Graddfa 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023377 © Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023377